

Polisi Cymeradwyo CBAC

I bwy mae'r polisi hwn?

Polisi yw hwn ar gyfer cyhoeddwr cynnwys print a digidol sy'n ceisio cymeradwyaeth am adnoddau i gefnogi un o gymwysterau CBAC ac i'r rheini sydd am farchnata'r adnoddau hynny yn ein digwyddiadau DPP.

Yn y polisi hwn nodir y broses y mae angen i gyhoeddwr ei dilyn er mwyn i ni gymeradwyo ei adnodd.

Pam mae angen polisi arnom?

Mae CBAC am sicrhau bod amrywiaeth eang o ddeunyddiau dwyieithog safonol ar gael i athrawon a dysgwyr i'w cefnogi â phob un o'n cyrsiau, i'w darparu gan ddefnyddio amrywiol ffurfiau a fformatau.

Er mwyn gallu cyflawni hynny, rydym yn barod i weithio gydag unrhyw gyhoeddwr sydd yr un mor frwdfrydig â ni o ran cynhyrchu cynnwys dwyieithog fydd yn cyfoethogi'r profiad i unrhyw ddysgwr sy'n dilyn un o'n manylebau.

Mae ein polisi cymeradwyo yn un tryloyw. Caiff pob cyhoeddwr yr un cyfle i gael ein cymeradwyaeth ni am gynnyrch ar yr amod ei fod yn bodloni ein meini prawf. Hefyd, mae CBAC yn llunio ei adnoddau mewnol ei hun, a defnyddir yr un prosesau sicrhau ansawdd trylwyr ag unrhyw ddeunydd gan drydydd parti wrth eu paratoi.

Rydym yn cydymffurfio â [Chod Ymarfer Cytûn y CGC](#) ac yn rhwym i Amodau Cydnabyddiaeth Cymwysterau Cymru: [Rheoliad C3](#).

Beth yw adnodd wedi'i gymeradwyo?

Gall fod yn adnodd print neu ddigidol y mae arbenigwr yn y pwnc wedi'i adolygu a'i gymeradwyo ar ran CBAC. Dim ond pan fyddwn yn gwbl hyderus o'r canlynol o ran y cynnwys y byddwn yn rhoi logo "Wedi'i gymeradwyo gan CBAC" arno:

- ei fod yn fanwl gywir
- ei fod yn ymdrin â'r fanyleb, uned neu'r testun a gefnogir yn ddigon eang a manwl
- bod ei lefel yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged
- ei fod yn cynnwys arferion asesu sy'n cyfateb i'n hegwyddorion asesu perthnasol
- bod ei ansawdd yn cyfateb yn y ddwy iaith.

Beth yw manteision gofyn am gymeradwyaeth?

- Drwy gymeradwyo adnoddau, gall ein hathrawon a'n dysgwyr fod yn hyderus yn safon y deunydd a pha mor berthnasol ydyw i'r cwrs maen nhw'n ei ddilyn.
- Bydd eich adnodd yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd drylwyr. Gallwch chi felly fod yn hyderus wrth farchnata'r deunydd bod y cynnwys sydd ynddo o werth i'r gynulleidfa darged.
- Bydd CBAC yn caniatáu i chi arddangos eich deunyddiau mewn digwyddiadau DPP.
- Bydd CBAC yn rhoi gwybod i'r canolfannau am yr holl gynnwys a gymeradwywyd.

Beth fyddwn ni'n ei gymeradwyo?

Rydym yn barod i ystyried cymeradwyo'r mathau canlynol o adnoddau:

Gwerslyfrau ac eLyfrau: Dylai gwerslyfr gynnwys gwybodaeth, sgiliau a pharatoad ar gyfer asesiadau sy'n briodol a chytbwys ac yn galluogi dysgwyr i astudio cwrs sy'n arwain at un o'n manylebau. Dylai gwerslyfr llwyddiannus annog athrawon a dysgwyr i archwilio cyd-destunau ehangach pwnc yn hytrach na chanolbwyntio ar asesu yn unig.

Deunydd cefnogi (canllawiau adolygu): Dylai canllawiau adolygu ymdrin â'r holl fanyleb a pharatoi dysgwyr i'w hasesu.

Deunydd cefnogi (themâu penodol): Yn yr adnoddau hyn gellid ymdrin â meithrin sgiliau neu thema neu destun penodol o fanyleb.

Deunyddiau addysgu a dysgu digidol: Yn yr adnoddau hyn dylid ymdrin â thestun, thema neu uned gyfan o fanyleb gan annog meithrin sgiliau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cynnwys addysgu a dysgu o safon – sy'n fanwl gywir ac yn briodol – ar gyfer athrawon a dysgwyr, dim ond cynnwys sy'n dilyn y broses gymeradwyo a nodir isod y byddwn yn ei gymeradwyo.

Ni fyddwn yn cymeradwyo unrhyw ddeunydd nad yw'n dilyn y drefn ganlynol:

- Unrhyw beth nad yw'n cael ei lunio yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.
- Unrhyw beth sy'n awgrymu bod angen yr adnodd ar ddysgwyr neu athrawon er mwyn gallu cwblhau un o'n cyrsiau'n llwyddiannus.
- Unrhyw beth sy'n awgrymu ei fod yn adnodd 'swyddogol' CBAC neu fod CBAC ei hun yn argymhell yr adnodd hwn ar draul adnoddau eraill.
- Unrhyw beth sy'n dweud bod gan yr awdur gysylltiad posibl â CBAC ac yn rhoi'r argraff bod yr adnodd hwn yn un mwy swyddogol o bosibl.
- Unrhyw beth sy'n canolbwyntio ar gwestiynau 'math arholiad'. Rhaid i bob cwestiwn ddod o'n cynbapurau a chodir ffi am hyn.
- Unrhyw beth sy'n defnyddio un o'n harholiadau yn ei gyfanrwydd. Cytunwn, fesul achos, ar y nifer o gwestiynau y gallwch eu defnyddio. Codir tâl am bob cwestiwn.
- Unrhyw beth sy'n awgrymu y gallai dysgwyr ennill gradd benodol o ddefnyddio'r adnodd.
- Unrhyw beth sy'n cynnwys 'awgrymiadau arholwyr'.
- Unrhyw beth nad yw'n bosibl ei ddarparu'n genedlaethol.

Ein proses gymeradwyo

- Mae angen i unrhyw gyhoeddwr sydd am gyflwyno cais i gael cymeradwyo unrhyw ddeunyddiau mewn fformat print neu ddigidol lenwi ffurflen gais a'i hanfon i adnoddau@cbac.co.uk. Sylwer: er ei bod yn well gennym gymeradwyo cynnwys y buom yn ymwneud ag ef ers y cam cynllunio, y byddwn yn ystyried cymeradwyo unrhyw ddeunydd yn ddiweddarach na hynny ar yr amod ei fod yn bodloni ein meini prawf cymeradwyo.
- Bydd ein harbenigwr pwnc a'r tîm adnoddau yn ystyried y cais ac yn cyhoeddi cytundeb lefel gwasanaeth os yw'r cais yn bodloni ein meini prawf cymeradwyo.
- Yn dilyn hynny bydd y cyhoeddwr yn anfon CV yr awdur o'i ddewis atom fel y gallwn ei gymeradwyo cyn ei benodi. Bydd CBAC yn cymeradwyo'r awdur yn ysgrifenedig o fewn pum (5) diwrnod gwaith.
- Os ysgrifennwyd y cynnwys yn barod, rhaid i'r cyhoeddwr anfon CV yr awdur atom fel y gallwn benderfynu a ydym am fynd ymlaen i gymeradwyo ai peidio.
- Bydd CBAC yn enwebu arbenigwr pwnc i adolygu'r cynnwys ar ein rhan.
- Bydd angen i'r awdur(on) a benodir gyflwyno crynodeb o'r adnodd a chrynhoi'r cynnwys i'w gymeradwyo. Caiff hyn ei adolygu ac anfonir adborth ymhen pum diwrnod gwaith.
- Bydd y cyhoeddwr yn sicrhau ei fod yn trosglwyddo'r cynnwys ysgrifenedig, fesul uned, i CBAC i'w adolygu erbyn dyddiad a gytunir.
- Bydd angen cyfnod o bum (5) diwrnod gwaith ar CBAC i wirio'r adnodd yn drylwyr a rhoi adborth.
- Bydd yr awdur yn cwblhau'r newidiadau gofynnol ac yn ei drosglwyddo'n ôl i'r adolygwr.
- Yna caiff y cynnwys ei wirio eto gan yr adolygwr i sicrhau bod y newidiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u gwneud. Deg (10) diwrnod gwaith yw'r cyfnod sydd ei angen arnom i wneud hyn.
- Bydd yr adolygwr yn hysbysu CBAC bod y gwaith yn dderbyniol ac ysgrifennir atoch i nodi ein bod wedi rhoi ein cymeradwyaeth i anfon y bennod/uned i'w chyfieithu.
- Yna, chyfieithir y gwaith a'i olygu i sicrhau bod y cynnwys yn gyson o ran termau, safon a chywair.
- I gwblhau'r gwaith o gyfieithu a golygu pob uned, bydd angen cyfnod amser o 10,000 – 15,000 o eiriau yr wythnos.
- Bydd CBAC yn trosglwyddo'r gwaith wedi'i gyfieithu yn ôl.
- Cwblheir y broses hon fesul uned nes bydd yr holl gynnwys wedi'i gymeradwyo yn y ddwy iaith.

- Yn ystod y broses gynhyrchu, ni all y cyhoeddwr farchnata bod CBAC wedi cymeradwyo unrhyw ddeunydd ond gall nodi y gofynnwyd am y gymeradwyaeth honno.
- Ar ôl cwblhau'r adnodd yn y ddwy iaith, bydd aelod o'r tîm adnoddau yn anfon y logo a'r datganiad cymeradwyo priodol atoch.
- Dylid gosod y rhain mewn ffordd nad yw'n awgrymu bod y deunydd ei hun yn un o adnoddau CBAC ond sy'n dangos yn glir ei fod wedi'i gymeradwyo gan CBAC.
- Bydd safle a maint y logo ar unrhyw ddeunydd yn cael ei adolygu ym mhob achos. Yr Adran Farchnata yn CBAC fydd yn adolygu ac yn cymeradwyo.
- Nawr gall y cyhoeddwr, wrth farchnata, gadarnhau bod CBAC wedi cymeradwyo'r deunydd.
- Mae angen anfon yr holl ddeunyddiau marchnata ac unrhyw beth sy'n cynnwys logo CBAC atom i'w cymeradwyo cyn eu dosbarthu.
- Yna, bydd CBAC yn talu ein hadolygwr ac yn anfon anfoneb i'r cyhoeddwr am y gwiriad ansawdd.

Faint fydd cymeradwyaeth yn ei gostio?

Ni fydd CBAC nac unrhyw un a gyflogir gan CBAC yn elwa o werthu neu ddsbarthu'r llyfr hwn. Codwn un ffi gweinyddu am fewnbwn ein tîm mewnol. Mae'r tabl isod yn dangos costau adolygu'r adnodd.

Nifer y tudalennau/sgriniau	Ffi gweinyddu	Gwiriad cyntaf	Ail wiriad
1 - 100	£50	£200	£50
101 - 300	£50	£350	£75
301 - 500	£50	£500	£100
501+	£50	£650	£125

Hefyd, rydym am fod yn gyfrifol am olygu a chyfieithu'r cynnwys. Codir un ffi gweinyddu am fewnbwn ein tîm mewnol ar gyfer gwneud hyn. Mae'r tabl isod yn dangos costau golygu a chyfieithu'r adnodd.

Nifer y tudalennau/sgriniau	Ffi gweinyddu	Cyfieithu
1 - 100	£50	£85 fesul 1,000 o eiriau
101 - 300	£50	£85 fesul 1,000 o eiriau
301 - 500	£50	£85 fesul 1,000 o eiriau
501+	£50	£85 fesul 1,000 o eiriau

Bydd hefyd cost golygyddol ychwanegol i'w thrafod ar gyfer pob prosiect. Sylwer: o ran adnoddau digidol, gwirio cynnwys yn unig fydd ein hadolygwyr. Ni fyddan nhw'n gwirio nac yn gwneud unrhyw sylw ar ei ddyluniad na'i ymarferoldeb.

Pan fydd CBAC yn creu ei adnoddau ei hun byddwn yn talu'r un swm i'n gwirwyr allanol am wirio a chymeradwyo ein cynnwys ni.

Pwy sy'n cael awduro cynnwys wedi'i gymeradwyo?

Yn rhan o [Amodau Cydnabyddiaeth](#) Cymwysterau Cymru, mae'n ofynnol i bob sefydliad dyfarnu nodi, monitro a rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau. Oherwydd hyn, mae angen i CBAC gymeradwyo unrhyw un sy'n ymwneud â chreu deunyddiau asesu cyn y caniateir iddyn nhw awduro cynnwys addysgu a dysgu.

Dylai unrhyw awduron a ddefnyddir i greu cynnwys i gefnogi unrhyw gymwysterau CBAC fod â phrofiad cyfredol o gyflwyno manylebau CBAC ar gyfer Cymru.

A fydd cynnwys o werslyfr yn ymddangos mewn arholiad?

Ceisiwn wneud ein gorau i sicrhau na fydd cynnwys o werslyfr byth yn ymddangos fel cwestiwn mewn arholiad. Bydd CBAC yn gofyn i bob arholwr sydd hefyd yn llunio deunydd addysgu a dysgu (ac eithrio'r hyn maen nhw'n bwriadu ei ddefnyddio yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain) gadarnhau na ddefnyddir unrhyw ran o'r cynnwys a awdurwyd ganddyn nhw i'w ddefnyddio gan drydydd parti wrth osod cwestiynau.

Sut y gellir marchnata deunyddiau?

- Rhaid i CBAC gael cyfle i wirio unrhyw ddeunydd hyrwyddo, gan gynnwys unrhyw lythyr ategol. Ni ddylai'r naill na'r llall o'r rhain awgrymu o gwbl mai CBAC sy'n cyfathrebu. Felly mae angen gofalu bod y logo a'r dyluniad/cynllun yn cael eu defnyddio'n gywir.
- Ni fydd CBAC yn dosbarthu deunydd hyrwyddo ar ran cyhoeddwr, ond bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddeunydd a gymeradwywyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cytûn. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi bod angen i ni roi cyhoeddusrwydd i unrhyw gynnwys sy'n addas i'w ddefnyddio heb ystyried a yw wedi'i gymeradwyo ai peidio.
- Mae croeso i gyhoeddwr deunyddiau a gymeradwywyd fynychu digwyddiadau DPP a dosbarthu eu hadnoddau yno.

Y Camau Nesaf

Dylai unrhyw un sydd am wneud cais am gymeradwyaeth lenwi'r rhestr wirio hunanasesiad i ddechrau i gadarnhau a ydyn nhw'n gymwys.

Os ydych yn gallu ateb ie i bob un o'r cwestiynau, yna llenwch y ffurflen gais. Byddwn yn cysylltu'n ôl â chi ymhen deg (10) diwrnod gwaith.

Datganiadau Cymeradwyo

Gwerslyfrau ac eLyfrau

Cymeradwyir cynnwys addysgu yr adnodd hwn gan CBAC i gefnogi [nodwch enw, lefel a chod y cymhwyster]

Adolygwyd yr adnodd hwn yn erbyn meini prawf cymeradwyo CBAC. Adnodd trydydd parti yw hwn. Oherwydd hynny, mae'n bosibl y bydd manyleb yn cael ei diweddarau a'r adnodd trydydd parti ddim yn adlewyrchu'r diweddariad hwnnw. Dylai defnyddwyr gyfeirio bob amser at fanyleb a Deunyddiau Asesu Enghreifftiol CBAC i sicrhau bod dysgwyr yn astudio'r cwrs mwyaf cyfoes.

Dylai athrawon baratoi eu dysgwyr yn llawn ar gyfer yr arholiad ac argymhellir eu bod yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i wneud hynny. Ni ddylent ddibynnu ar un gwerslyfr neu adnodd digidol yn unig.

Ni thalwyd CBAC, nac unrhyw un a gyflogwyd gan CBAC, i gymeradwyo'r adnodd hwn. Nid yw CBAC ychwaith yn derbyn unrhyw freindaliadau am werthu'r adnodd.

Adnodd digidol

Cymeradwyir cynnwys addysgu yr adnodd hwn gan CBAC i gefnogi [Nodwch enw, lefel a chod y cymhwyster a hefyd enw(au) unedau/themâu/sgiliau yr ymdrinnir â nhw]

Adolygwyd yr adnodd hwn yn erbyn meini prawf cymeradwyo CBAC. Adnodd trydydd parti yw hwn. Oherwydd hynny, mae'n bosibl y bydd manyleb yn cael ei diweddarau a'r adnodd trydydd parti ddim yn adlewyrchu'r diweddariad hwnnw. Dylai defnyddwyr gyfeirio bob amser at fanyleb a Deunyddiau Asesu Enghreifftiol CBAC i sicrhau bod dysgwyr yn astudio'r cwrs mwyaf cyfoes.

Dylai athrawon baratoi eu dysgwyr yn llawn ar gyfer yr arholiad ac argymhellir eu bod yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i wneud hynny. Ni ddylent ddibynnu ar un gwrslyfr neu adnodd digidol yn unig.

Ni thalwyd CBAC, nac unrhyw un a gyflogwyd gan CBAC, i gymeradwyo'r adnodd hwn. Nid yw CBAC ychwaith yn derbyn unrhyw freindaliadau o werthu'r adnodd.